GwerthwchiGymru

Canllaw i Ddefnyddwyr y Cyfleuster Is-Gontractau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cynnwys

Beth yw'r cyfleuster hysbysiad o is-gontract? 2

Pwy all ddefnyddio'r cyfleuster hysbysiad o is-gontract? 2

Sut y gallaf gofrestru fel Contractwr Arweiniol er mwyn creu a chyhoeddi hysbysiadau o is-gontractau? 3

Os ydych yn ddefnyddiwr newydd....3

Os ydych yn Gyflenwr eisoes 5

Oes angen i mi gofrestru ar wahân er mwyn arfer Swyddogaethau Cyflenwyr?....8

Panel Rheoli - Creu Hysbysiad....10

Creu Hysbysiad o Gyfle Tybiannol neu Gyfle Is-gontractio....10

Opsiynau Ychwanegol ar gyfer yr Hysbysiad 15

Cyhoeddi Hysbysiad 16

Dyddiadau Cau ar gyfer Hysbysiadau 16

Hysbysiad Cam 2 17

Y Weithdrefn Dyfarnu Is-gontractau....17

Dyfynbris Cyflym/Dyfarnu Dyfynbris Cyflym 19

Lefelau Mynediad 20

Negeseuon Atgoffa Drwy E-bost ynghylch Dyfarniadau....20

Beth yw'r cyfleuster hysbysiad o is-gontract?

Datblygwyd y cyfleuster hysbysiad o is-gontract er mwyn galluogi prif gontractwyr ar gontractau cyhoeddus i hysbysebu eu cyfleoedd is-gontractio ar borth GwerthwchiGymru.

Mae gan y cyfleuster hysbysiad o is-gontract ddwy brif fantais:

1. Mae'n rhoi cyfle i gyflenwyr nad ydynt o bosibl mewn sefyllfa i gynnig ar gyfer y prif gontract cyhoeddus ond sy'n gallu gwneud gwaith neu ddarparu cynhyrchion neu wasanaethau ar gyfer y prosiect
2. Mae'n rhoi cyfle i'r prif gontractwr sefydlu ei gadwyn gyflenwi mewn amgylchedd cystadleuol

Nod y canllaw hwn i ddefnyddwyr yw rhoi canllawiau i'r Contractwyr Arweiniol hynny sydd am ddefnyddio'r cyfleuster hwn.

Gall Contractwyr Arweiniol a gaiff eu cymeradwyo i ddefnyddio'r cyfleuster hysbysiad o is-gontract ddefnyddio'r adran hysbysiad o is-gontract i gyhoeddi eu gofynion ar GwerthwchiGymru. Gall hyn fod ar ffurf hysbysiadau a gyhoeddir neu geisiadau am ymarferion nodi dyfynbrisiau a gyfyngir i'r cyflenwyr hynny a ddewisir gan y contractwr.

Mae amrywiaeth o opsiynau ychwanegol ar gael i helpu'r contractwr gyda'i broses gaffael drwy sicrhau bod yr holl swyddogaethau ar gael mewn un man ar-lein - Dogfennau Ychwanegol, Cwestiynau ac Atebion a'r Blwch Postio.

Pwy all ddefnyddio'r cyfleuster hysbysiad o is-gontract?

Mewn rhai achosion, bydd yn ofynnol i'r contractwr, yn unol â chymal aildendro yn ei gontract cyhoeddus, hysbysebu is-gontractau drwy GwerthwchiGymru. Fodd bynnag, gall unrhyw gontractwr haen gyntaf wneud cais am gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiadau o is-gontractau.

Dim ond y contractwyr hynny sydd naill ai wedi ennill contract cyhoeddus neu sydd wedi cymhwyso ymlaen llaw i dendro ar gyfer contract o'r fath a gaiff eu cymeradwyo gan fod yn rhaid i bob hysbysiad o is-gontract a gyhoeddir gael ei gysylltu â hysbysiad o gontract cyhoeddus.

Sut y gallaf gofrestru fel Contractwr Arweiniol er mwyn creu a chyhoeddi hysbysiadau o is-gontractau?

Er mwyn cael cymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiadau o is-gontractau, rhaid i chi anfon cais drwy GwerthwchiGymru i'r ddesg gymorth. Bydd y ddesg gymorth yn ymateb i'r cais o fewn un diwrnod gwaith.

Mae dwy ffordd o wneud cais am gymeradwyaeth, yn dibynnu ar b'un a ydych yn defnyddio'r porth eisoes neu'n cofrestru am y tro cyntaf.

Os ydych yn defnyddio GwerthwchiGymru am y tro cyntaf, dylech ddilyn y camau canlynol:

.

1. Cliciwch ar y botwm "Cofrestrwch am ddim" ar ochr chwith yr hafan



2. Dewiswch gofrestru fel Contractwr Arweiniol

3. Edrychwch i weld a yw eich sefydliad eisoes wedi'i gofrestru ar GwerthwchiGymru ac yn gallu cyhoeddi cyfleoedd is-gontractio drwy nodi enw'ch sefydliad yn yr adran Sefydliad sy'n Bodoli Eisoes a chlicio ar "Chwilio"



Os bydd eich chwiliad yn dod o hyd i enw'ch sefydliad, cliciwch arno ac ewch i gam 5. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ganlyniadau, ewch i gam 4.

4. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ganlyniadau, nid yw eich sefydliad wedi'i gynnwys ar system GwerthwchiGymru ac ni all ddefnyddio'r cyfleuster hysbysiad o is-gontract. Fel y cyfryw, bydd angen i chi wneud cais am gymeradwyaeth er mwyn i'ch sefydliad allu defnyddio'r

5. cyfleuster. I wneud hyn, nodwch enw eich sefydliad yn yr adran Sefydliad Newydd a chliciwch ar "Cyflwyno"



6. Llenwch y ffurflen gofrestru gyda'ch manylion personol a manylion y sefydliad. Rhaid i chi hefyd ateb yr adran sy'n ymwneud â manylion eich Statws fel Contractwr Arweiniol er mwyn helpu desg gymorth GwerthwchiGymru i brosesu eich cais.



Dewiswch un opsiwn neu'r ddau opsiwn sy'n ymwneud â ph'un a ydych wedi ennill contract cyhoeddus neu wedi cymhwyso ymlaen llaw i dendro ar gyfer contract cyhoeddus drwy dicio'r blychau perthnasol. Rhowch destun yn y blwch "Gwybodaeth Bellach" i egluro'r prosiect neu'r prosiectau rydych yn gysylltiedig ag ef/hwy ac rydych yn defnyddio'r cyfleuster hysbysiad o is-gontract mewn perthynas ag ef/hwy. Cliciwch ar "Cyflwyno" i gwblhau eich cais.

Os ydych yn Gyflenwr sy'n defnyddio GwerthwchiGymru eisoes, dylech ddilyn y camau canlynol:

1. Mewngofnodwch ar GwerthwchiGymru a chewch eich cyfeirio at Banel Rheoli'r Cyflenwr. O'r Panel Rheoli, cliciwch ar y ddolen "Cofrestru i gyhoeddi cyfleoedd is-gontractio".



2. Edrychwch i weld a yw eich sefydliad eisoes wedi'i gofrestru ar GwerthwchiGymru ac yn gallu cyhoeddi cyfleoedd is-gontractio drwy nodi enw'ch sefydliad yn yr adran Sefydliad sy'n Bodoli Eisoes a chlicio ar "Chwilio"



Os bydd eich chwiliad yn dod o hyd i enw'ch sefydliad, cliciwch arno ac ewch i gam 4. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ganlyniadau, ewch i gam 3.

3. Os na ddeuir o hyd i unrhyw ganlyniadau, nid yw eich sefydliad wedi'i gynnwys ar system GwerthwchiGymru ac ni all ddefnyddio'r cyfleuster hysbysiad o is-gontract. Fel y cyfryw, bydd angen i chi wneud cais am gymeradwyaeth er mwyn i'ch sefydliad allu defnyddio'r cyfleuster. I wneud hyn, nodwch enw eich sefydliad yn yr adran Sefydliad Newydd a chliciwch ar "Cyflwyno"



4. Dewiswch un opsiwn neu'r ddau opsiwn sy'n ymwneud â ph'un a ydych wedi ennill contract cyhoeddus neu wedi cymhwyso ymlaen llaw i dendro ar gyfer contract cyhoeddus drwy dicio'r blychau perthnasol. Rhowch destun yn y blwch "Gwybodaeth Bellach" i egluro'r contract neu'r contractau rydych yn gysylltiedig ag ef/hwy ac rydych yn defnyddio'r cyfleuster hysbysiad o is-gontract mewn perthynas ag ef/hwy. Cliciwch ar "Cyflwyno" i gwblhau eich cais.



Oes angen i mi gofrestru ar wahân er mwyn arfer Swyddogaethau Cyflenwyr?

Mae cofrestru fel Contractwr Arweiniol yn eich galluogi i ddefnyddio'r cyfleuster hysbysiad o is-gontract tra'n cynnal proffil Cyflenwr. Mae hyn yn eich galluogi i ddatgan eich diddordeb mewn hysbysiadau rydych am wneud cynnig mewn perthynas â hwy, cyflwyno ymatebion ar-lein, cynnal gwasanaeth rhybuddion am hysbysiadau ac arfer pob swyddogaeth arall sy'n ymwneud â chyflenwyr.

Pan fyddwch yn mewngofnodi ar GwerthwchiGymru fel Contractwr Arweiniol, cewch eich tywys yn awtomatig i Banel Rheoli'r Awdurdod. Os hoffech ddefnyddio Panel Rheoli'r Cyflenwr, gallwch wneud hynny o ddewislen y wefan drwy ddewis Cyflenwyr > Panel Rheoli'r Cyflenwr.

Mathau o Hysbysiadau o Is-gontractau

Cyfle Is-gontractio

Mae'r hysbysiad o Gyfleoedd Is-gontractio yn eich galluogi i hysbysebu gofynion is-gontract ar gyfer contractau cyhoeddus a ddyfarnwyd i'ch sefydliad. Caiff yr hysbysiad ei gyhoeddi ar GwerthwchiGymru a gall pob cyflenwr ei weld.

Gall yr hysbysiad fod yn weithdrefn un cam neu ddau gam. Mae gweithdrefn un cam yn golygu eich bod yn gwahodd ymatebion i dendrau gan unrhyw gyflenwr sydd am gynnig am y contract. Mae gweithdrefn dau gam yn golygu eich bod yn gofyn i unrhyw gyflenwr sydd â diddordeb mewn cynnig fynd drwy gam cymhwyso yn gyntaf ac yna'n gwahodd ychydig o gyflenwyr dethol i gymryd rhan yn y cam tendro.

Cyfle Is-gontractio Tybiannol

Mae'r hysbysiad o Gyfleoedd Is-gontractio Tybiannol yn eich galluogi i hysbysebu gofynion is-gontract ar gyfer contractau cyhoeddus y mae eich sefydliad wedi cymhwyso ymlaen llaw i gynnig amdanynt. Nod yr hysbysiad yw eich helpu gyda'r broses o lunio eich cynnig.

Ar wahân i'r teitl ac ymwadiad awtomatig sy'n esbonio na all y contract gael ei warantu, mae'r hysbysiad o Gyfleoedd Is-gontractio Tybiannol yn union yr un fath â'r Hysbysiad o Gyfleoedd Is-gontractio.

Hysbysiad o Ddyfarnu Is-gontract

Mae'r Hysbysiad o Ddyfarnu Is-gontract yn ffordd o gofnodi pa gyflenwr/gyflenwyr a enillodd gontract ar ôl cyhoeddi hysbysiad o gyfle. Gofynnir am y cynigiwr/cynigwyr llwyddiannus a gwerth y contract(au) a ddyfarnwyd.

Ni chaiff yr hysbysiad o ddyfarniad ei gyhoeddi ond rhoddir y data a ddarperir i Lywodraeth Cymru at ddibenion adrodd.

Pan gaiff yr Hysbysiad o Ddyfarnu Is-gontract ei gyflwyno, anfonir e-bost drwy GwerthwchiGymru at y cynigwyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn eu hysbysu ynghylch p'un a oeddent yn llwyddiannus ai peidio. Ni chaiff manylion y cynigiwr/cynigwyr llwyddiannus eu datgelu i'r sawl a fu'n aflwyddiannus.

Hysbysiad Cam 2

Mae hysbysiad Cam 2 yn eich galluogi i gynnal ail gam gweithdrefn dau gam ar GwerthwchiGymru, gan wahodd y cyflenwyr dethol hynny yr hoffech iddynt gymryd rhan yn yr ail gam. Ni chaiff yr hysbysiad ei gyhoeddi.

Dyfynbris Cyflym

Mae'r system Dyfynbris Cyflym yn golygu y gellir dosbarthu ceisiadau am ddyfynbrisiau i gyflenwyr dethol yn unig yn hytrach na'u cyhoeddi. Gallwch lunio eich rhestr o'r sawl yr hoffech eu gwahodd drwy ddefnyddio cyfleusterau chwilio am gyflenwyr.

Dyfarniadau Dyfynbris Cyflym

Mae'r swyddogaeth Dyfarnu Dyfynbris Cyflym yn gweithredu yn yr un modd â'r hysbysiad o Ddyfarnu Is-gontract er mwyn hysbysu cynigwyr a Llywodraeth Cymru am ganlyniad ymarfer Dyfynbris Cyflym.

Panel Rheoli - Creu Hysbysiad

Caiff pob un o'ch hysbysiadau eu rheoli o'r ddewislen Hysbysiadau, y gellir mynd iddi drwy eich Panel Rheoli.



Mae'r opsiynau ar gyfer hysbysiadau ar y panel rheoli yn eich galluogi i wneud y canlynol:

- **Creu Hysbysiad Newydd** (Cyfleoedd Tybiannol neu Gyfleoedd Is-gontractio)
- Gweld rhestr o **Fy Hysbysiadau Anghyhoeddedig** (Cyfleoedd Tybiannol neu Gyfleoedd Is-gontractio, Dyfarnu Is-gontractau) a grëwyd gennych chi
- Gweld rhestr o **Hysbysiadau Anghyhoeddedig yr Awdurdod** (Cyfleoedd Tybiannol neu Gyfleoedd Is-gontractio, Dyfarnu Is-gontractau) a grëwyd gan eich sefydliad
- Gweld rhestr o **Yr Hysbysiadau a Gyhoeddwyd Gennyf** (Cyfleoedd Tybiannol neu Gyfleoedd Is-gontractio, Dyfarnu Is-gontractau) a grëwyd gennych chi
- Gweld rhestr o **Hysbysiadau a Gyhoeddwyd gan yr Awdurdod** (Cyfleoedd Tybiannol neu Gyfleoedd Is-gontractio, Dyfarnu Is-gontractau) a grëwyd gan eich sefydliad
- Mynd i'ch Panel Rheoli **Dyfynbrisiau Cyflym**
- Mynd i'ch Panel Rheoli **Hysbysiadau Cam 2**

Creu Hysbysiad o Gyfle Tybiannol neu Gyfle Is-gontractio

Gallwch greu hysbysiad o Gyfle Tybiannol neu Gyfle Is-gontractio drwy glicio ar y ddolen "Creu Hysbysiad Newydd".

Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am y math o hysbysiad rydych am ei greu. Bydd hyn yn pennu'r cwestiynau y gofynnir i chi eu cwblhau.

Mae camau cychwynnol y broses o greu hysbysiad fel a ganlyn:

1. Rhowch deitl dros dro ar gyfer eich hysbysiad. Dim ond eich sefydliad fydd yn gallu gweld y teitl hwn ac ni chaiff ei gynnwys ar yr hysbysiad cyhoeddus.
2. Dewiswch y math o hysbysiad yr hoffech ei gyhoeddi - p'un a yw'n Gyfle Is-gontractio neu'n Gyfle Is-gontractio Tybiannol.
3. Dewiswch natur y contract - p'un a yw'n gontract Gwaith, Gwasanaethau neu Gyflenwadau
4. Dewiswch y math o weithdrefn yr hoffech ei dilyn - p'un a yw'n weithdrefn un cam neu'n weithdrefn dau gam.
5. Cadarnhewch eich dewisiadau neu dewiswch eu golygu.

Unwaith y byddwch wedi cadarnhau eich dewisiadau, caiff hysbysiad anghyhoeddedig ei greu yn eich gweithfan hysbysiadau anghyhoeddedig. Bydd angen i chi ateb rhestr o gwestiynau er mwyn cyflwyno'r hysbysiad.



Gallwch fynd i'r cwestiwn cyntaf drwy glicio ar "Nesaf".

Nodir meysydd gofynnol gyda seren goch. Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r cwestiwn, gallwch glicio ar "Nesaf" i gadw eich atebion a symud i'r cwestiwn nesaf ar y ffurflen neu "Cadw" er mwyn cadw eich atebion ac aros ar yr un dudalen. Gallwch ddychwelyd i'ch gweithfan hysbysiadau anghyhoeddedig drwy glicio ar y botwm “Canslo".



Os dewch ar draws cwestiwn na allwch ei ateb, gallwch ddefnyddio'r gwymplen "Ewch i gwestiwn" i fynd i'r cwestiwn nesaf, gan ddychwelyd i'r un na wnaethoch ei ateb maes o law.

Rhaid i bob hysbysiad fod ynghlwm wrth yr hysbysiad o gontract sector cyhoeddus y mae'n cyfeirio ato. Er mwyn cwblhau eich hysbysiad, bydd angen rhif adnabod yr hysbysiad sector cyhoeddus arnoch.



Mae sawl ffordd o gael gafael ar y rhif adnabod hwn:

- Efallai y bydd yr awdurdod yn gallu rhoi'r rhif i chi
- Os gwnaethoch ddatgan diddordeb yn yr hysbysiad, bydd y rhif ar gael yn eich Rhestr Diddordeb drwy Banel Rheoli'r Cyflenwr
- Gallwch chwilio ar y dudalen "Pori drwy Hysbysiadau"
- Gallwch gysylltu â desg gymorth GwerthwchiGymru

Opsiynau Ychwanegol ar gyfer yr Hysbysiad

Mae nifer o opsiynau ychwanegol ar gael i chi ac mae'n rhaid i chi ddewis yr opsiynau hynny pan fyddwch yn creu'r hysbysiad os hoffech eu defnyddio. Er mwyn actifadu'r opsiynau a ffefrir gennych, dylech dicio'r blwch perthnasol.

Rhestr Diddordeb a Nodwyd

Mae'r rhestr hon yn galluogi cyflenwyr i gofnodi eu diddordeb yn eich hysbysiad. Yna gallwch gysylltu â'r holl gyflenwyr hyn drwy eich gweithfan hysbysiadau cyhoeddedig. Gallwch hefyd weld y rhestr a'i lawrlwytho.

Dogfennau Ychwanegol

Gallwch lanlwytho dogfennau i'ch hysbysiad gan sicrhau bod y sefydliadau a wnaeth ddatgan eu diddordeb yn gallu gweld y dogfennau hyn. Gallwch lanlwytho 100Mb o ddogfennau i unrhyw hysbysiad, gyda therfyn maint o 20Mb ar gyfer ffeiliau unigol. Gallwch hefyd ychwanegu neu ddisodli dogfennau o'ch gweithfan hysbysiadau cyhoeddedig unwaith y caiff eich hysbysiad ei gyhoeddi.

Cwestiynau ac Atebion

Gallwch ddewis derbyn ac ateb cwestiynau gan gyflenwyr drwy GwerthwchiGymru. Gofynnir i chi ddewis defnyddiwr i fod yn gyfrifol am ymdrin â'r cwestiynau a dderbynnir. Pan gaiff cwestiwn ei

gyflwyno, bydd y defnyddiwr hwnnw yn derbyn e-bost yn ei hysbysu am hynny ac yn gofyn iddo fewngofnodi ar y porth er mwyn ateb neu hepgor y cwestiwn hwnnw.

Os caiff y cwestiwn ei ateb, yna bydd pob sefydliad sydd wedi datgan diddordeb yn derbyn y cwestiwn a'r ateb drwy e-bost. Os caiff ei hepgor, anfonir e-bost at y defnyddiwr a ofynnodd y cwestiwn yn ei hysbysu am hynny. Mae'r cyfleuster Cwestiynau ac Atebion yn ddienw gan nad yw'r prynwr yn gweld pwy wnaeth ofyn pob cwestiwn.

Blwch Postio Electronig

Mae blwch postio electronig diogel ar gael i chi dderbyn ymatebion gan gyflenwyr drwy GwerthwchiGymru. Am ragor o wybodaeth am y blwch postio, gweler y Canllaw i ddefnyddwyr y blwch postio.

Cyhoeddi Hysbysiad

Unwaith y byddwch wedi gorffen y gwaith o greu eich hysbysiad, gallwch edrych arno cyn ei gyhoeddi, ei gyhoeddi neu ddychwelyd i'ch gweithfan hysbysiadau a'i gyhoeddi'n ddiweddarach.

Unwaith y byddwch yn barod i'w gyhoeddi, cliciwch ar yr opsiwn "cyhoeddi". Yna caiff yr hysbysiad ei anfon i giw cyhoeddi desg gymorth GwerthwchiGymru lle y caiff ei gymeradwyo cyn cael ei roi ar y wefan.

Os cyfyd unrhyw broblemau gyda'r hysbysiad, bydd desg gymorth GwerthwchiGymru yn cysylltu â chi er mwyn eu datrys.

Dyddiadau Cau ar gyfer Hysbysiadau

Er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn cael digon o gyfle i ymateb, ni ddylai'r dyddiad cau a bennir gennych ar eich hysbysiad fod yn llai na phum diwrnod gwaith.

Hysbysiad Cam 2

Os byddwch yn dewis cynnal gweithdrefn dau gam, gallwch ddosbarthu'r hysbysiad cam 2 ymhlith y cyflenwyr a ddewiswyd gennych pan fydd y dyddiad cau a bennwyd ar gyfer y cam cyntaf wedi mynd heibio. Mae'r holl opsiynau ychwanegol ar gael ar yr hysbysiad Cam 2. Am ragor o wybodaeth, gweler y Canllaw i ddefnyddwyr ar gam 2.

Y Weithdrefn Dyfarnu Is-gontractau

Dylai fod gan bob Hysbysiad o Gyfle Tybiannol neu Gyfle Is-gontractio hysbysiad o ddyfarniad ynghlwm wrtho pan fydd y dyddiad dyfarnu amcangyfrifedig wedi mynd heibio. Os na wnaed unrhyw ddyfarniad, yna dylech ganslo'r hysbysiad drwy eich Gweithfan Hysbysiadau Cyhoeddedig. Os yw'r hysbysiad wedi arwain at ddyfarniad, yna dylech gyflwyno hysbysiad o ddyfarniad.

Er mwyn gwneud hyn, rhaid i chi agor yr hysbysiad o gyfle o'ch gweithfan hysbysiadau cyhoeddedig a chlicio ar y botwm "Dyfarnu".



Yna, gofynnir i chi lenwi ffurflen fer, gan nodi manylion y cynigiwr/cynigwyr llwyddiannus a gwerth y dyfarniad. Gofynnir i chi hefyd hysbysu'r cynigwyr am y canlyniad drwy anfon e-bost atynt o system GwerthwchiGymru.

Gwneir hyn drwy ddewis y cynigiwr/cynigwyr llwyddiannus o'r gronfa ddata yn y cwestiwn "Rhestr o Gynigwyr Llwyddiannus". Os gwnaethoch alluogi'r swyddogaeth Diddordeb a Nodwyd, yna cyflwynir rhestr o gyflenwyr a nododd eu diddordeb a gallwch eu hychwanegu fel cynigwyr llwyddiannus drwy glicio ar "Ychwanegu" wrth ymyl eu henw. Os na wnaethoch alluogi'r swyddogaeth Diddordeb a

Nodwyd, yna gallwch ddefnyddio'r cyfleuster "Chwilio" i ddod o hyd i gyflenwr/cyflenwyr yng nghronfa ddata GwerthwchiGymru.



Ar ôl clicio ar "Ychwanegu", gofynnir i chi nodi gwerth y contract, y mae'n rhaid ei nodi mewn rhifau. Ni chaiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi na'i rhannu â'r cyflenwyr. Caiff y wybodaeth ei chofnodi er mwyn i Lywodraeth Cymru ei defnyddio at ddiben dadansoddiad ystadegol.

Ar ôl clicio ar "Nesaf", gofynnir i chi ddarparu testun ar gyfer y 'neges e-bost lwyddiannus' a anfonir yn awtomatig at y cynigiwr/cynigwyr llwyddiannus a ddewisir pan fyddwch yn cyflwyno eich hysbysiad o ddyfarniad. Mae'r system yn darparu testun rhagosodedig ond os hoffech ddiwygio'r testun hwn, gallwch wneud hynny.



Caiff y broses uchod ei hailadrodd ar gyfer y cyflenwyr aflwyddiannus.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r Hysbysiad o Ddyfarnu Is-gontract, dylech fynd ati i'w ryddhau. Gan nad yw'r hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar GwerthwchiGymru, nid yw'n cael ei anfon i ddesg gymorth GwerthwchiGymru i'w gymeradwyo. Caiff y manylion eu hychwanegu'n awtomatig at y gronfa ddata at ddibenion adrodd a chaiff y negeseuon e-bost eu hanfon o'r system.

Dyfynbris Cyflym/Dyfarnu Dyfynbris Cyflym

Ar hyn o bryd, defnyddir y swyddogaeth Dyfynbris Cyflym gan gyrff cyhoeddus. Am ragor o wybodaeth, gweler y Canllaw i Brynwyr ar Ddyfynbrisiau Cyflym. Yr unig wahaniaeth mawr o ran gweithdrefn Dyfynbris Cyflym yr hysbysiad o is-gontract yw bod yn rhaid i Ddyfynbrisiau Cyflym a ddosberthir gan Gontractwyr Arweiniol fod yn gysylltiedig â hysbysiad o gontract sector cyhoeddus.

Lefelau Mynediad

Gall lefelau mynediad gwahanol gael eu pennu ar gyfer defnyddwyr sy'n Contractwyr Arweiniol o fewn y sefydliad er mwyn sefydlu strwythur hierarchaidd ar gyfer rheoli'r broses o gyhoeddi hysbysiadau.

Mae mynediad *Rheolwr* yn golygu y gellir pennu 'uwch ddefnyddiwr' sy'n gallu defnyddio holl swyddogaethau'r Prynwr ac sy'n gyfrifol am bennu lefelau mynediad ar gyfer defnyddwyr eraill a rheoli swyddogaethau'r sefydliad.

Y lefelau mynediad eraill yw:

Defnyddiwr yr Awdurdod – Mynediad 'darllen yn unig' yn ei hanfod. Mae'n caniatáu i ddefnyddiwr gael ei alinio â'r sefydliad a gweld pob hysbysiad ond ni all olygu na chyhoeddi hysbysiadau.
Golygydd - Mae'n caniatáu i ddefnyddiwr greu a golygu hysbysiadau o gyfleoedd is-gontractio a hysbysiadau o ddyfarniadau ond ni all gyhoeddi hysbysiadau.
Cyhoeddwr - Mae'n caniatáu i ddefnyddiwr gyhoeddi hysbysiadau o gyfleoedd is-gontractio a chyflwyno hysbysiadau o ddyfarniadau.
Agorwr y Blwch Postio - Mae'n caniatáu i ddefnyddiwr gael ei ddewis i agor y blwch postio electronig.
Golygydd Dyfynbris Cyflym - Mae'n caniatáu i ddefnyddiwr greu a golygu Dyfynbrisiau Cyflym a Dyfarniadau Dyfynbrisiau Cyflym ond ni all gyflwyno'r hysbysiadau hyn.
Cyhoeddwr Dyfynbrisiau Cyflym - Mae'n caniatáu i ddefnyddiwr gyflwyno hysbysiadau Dyfynbrisiau Cyflym a hysbysiadau Dyfarnu Dyfynbrisiau Cyflym.

Negeseuon Atgoffa Drwy E-bost ynghylch Dyfarniadau

Bob mis, anfonir neges e-bost at Reolwyr bob sefydliad yn eu hatgoffa am gontractau a gaiff eu dyfarnu. Mae'r e-bost hwn yn rhestru'r holl hysbysiadau o gyfleoedd is-gontractio, hysbysiadau o gyfleoedd is-gontractio tybiannol a Dyfynbrisiau Cyflym y mae eu dyddiad dyfarnu amcangyfrifedig wedi mynd heibio ond nad oes hysbysiad o ddyfarniad wedi'i gyhoeddi mewn perthynas â hwy.